# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-04-09)

**Dyddiad: 10 Chwefror 2009**
**Amser : 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC240 - Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Ionawr 2009. Fe'u gosodwyd ar 27 Ionawr 2009. Yn dod i rym ar 20 Chwefror 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu—

(a) Cyfarwyddeb y Comisiwn 2008/76/EC sy'n diwygio Atodiad I i Gyfarwyddeb 2002/32/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar sylweddau annymunol mewn bwyd anifeiliaid ( OJ Rhif L198, 26.7.2008, t.37); a

(b) Cyfarwyddeb y Comisiwn 2008/82/EC sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2008/38/EC o ran bwydydd anifeiliaid a fwriedir ar gyfer cefnogi swyddogaeth arennol mewn achos o annigonolrwydd cronig yr arennau (OJ Rhif L202, 31.7.2008, t.48).

SLC242 - Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 26 Ionawr 2009. Fe'u gosodwyd ar 27 Ionawr 2009. Yn dod i rym ar 18 Chwefror 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2008 i gywiro pwyntiau a nodwyd yn flaenorol wrth y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 15.2.

SLC243 - Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 26 Ionawr 2009. Fe'i gosodwyd ar 28 Ionawr 2009. Yn dod i rym ar 19 Chwefror 2009.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006 ("Gorchymyn 2006") ymhellach. Diwygiwyd Gorchymyn 2006 cyn hyn gan Orchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) (Diwygio) 2008 ("Gorchymyn 2008"). Yn benodol, mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio erthygl 5 o Orchymyn 2006, drwy newid y dyddiad y mae yn ofynnol i bob cynllun trafnidiaeth lleol sy'n gymwys gael ei ddisodli, o 30 Mehefin 2009 i 31 Rhagfyr 2009. Yng Ngorchymyn 2008, diwygiwyd y dyddiad gwreiddiol, sef 30 Mehefin 2008 i 30 Mehefin 2009

SLC244 - Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 2 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 4 Chwefror 2009. Yn dod i rym ar 25 Chwefror 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008 I gywiro pwyntiau a nodwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2009.

### Caiff y pwyllgor ei wahodd i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi):

Caiff pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhywran o gyfarfod:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi.

### Eitem 3: Ehangu'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth: Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig - ystyried y materion allweddol (parhad)

SLC(3)-03-09(p4) - Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig: y materion allweddol

Papurau i'w nodi:

Ymatebion gan bwyllgorau craffu, Swyddfa Cymru a Chomisiwn y Gyfraith.

### Eitem 4: Unrhyw fater arall

SLC226 - Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

**Papur i’w nodi: Llythyr gan y Cadeirydd i’r Gweinidog dros Faterion Gwledig ynghylch slc230**

**Eitem 5: Dyddiad y cyfarfod nesaf**